
# Cymorth i Brynu – Cymru

## Canllawiau Brand

www.llyw.cymru/cymorthibrynu

Cymorth i Brynu-Cymru
Help to Buy-Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymorth i Brynu – Cymru

## Canllawiau Brand: Cyflwyniad

Mae *Cymorth i Brynu – Cymru* yn gynllun benthyciad ecwiti a rennir gan Lywodraeth Cymru a allai ei gwneud hi'n haws i bobl ddod yn berchen ar dŷ neu symud i dŷ gwell. Mae'n helpu'r sawl sydd eisoes yn berchen ar dŷ a phrynwyr am y tro cyntaf i brynu tŷ gwerth hyd at £300,000 ((o 1 Ebrill 2023) gyda chyn lleied â 5% o  laendal.

Mae'r cynllun yn gweithio ochr yn ochr â chynllun Gwarant Morgais Cymorth i Brynu a ddarperir gan Lywodraeth y DU sydd ar gael ar gyfer eiddo, hen a newydd, â morgais safonol o hyd at 95% o'r pris prynu.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylid defnyddio brand *Cymorth i Brynu – Cymru* i hyrwyddo'r cynllun benthyciad ecwiti a rennir yng Nghymru a sut y dylid defnyddio'r brand ar y cyd â marciau brand eraill gan gynnwys brand Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU.

Ceir canllawiau penodol ar y defnydd o frand Cymorth i Brynu y DU ar-lein:
**https://www.gov.uk/government/publications/homes-england-logos**

# Canllawiau Brand

Mae'r canllawiau hyn yn diffinio'r defnydd o frand *Cymorth i Brynu – Cymru*, sut i'w ddefnyddio yn y cyfryngau a sut y gellir ei ddefnyddio gyda marciau brand eraill.

- Dim ond yn unol â'r canllawiau hyn y dylid defnyddio'r logo.
- Ni ddylai'r logo byth ymddangos yn llai nag unrhyw logo arall, ar-lein neu mewn print.
- Pan fydd *Cymorth i Brynu – Cymru* yn ymddangos o fewn corff adroddiad, fel pennawd neu gapsiwn, dylai ymddangos fel y ganlyn:

## Yng nghorff adroddiad neu bennawd

*Cymorth i Brynu – Cymru*

## Capsiwn

HtBW h.y. H fawr, t fach, B fawr, W fawr.

# Fersiynau'r Logo

Crëwyd y logo gyda nifer gyfyngedig o opsiynau er mwyn sicrhau cysondeb wrth ei ddefnyddio, ond hefyd hyblygrwydd lle y gall fod yn fwy anodd ei atgynhyrchu'n glir.

## Lliw

Ni ddylid newid lliw'r logo a dylai'r lliw naill ai fod yn **goch a gwyrdd (gyda thestun du islaw)** neu wedi'i gyflwyno mewn **du** a **gwyn** fel yr isod.

Peidiwch â newid y logo i ymgorffori lliwiau cwmni / corfforaethol.

coch a gwyrdd

gwyn

du

# Maint

Dylai pob elfen o’r logo fod yn eglur bob amser. Am y rheswm hwn, dylid cadw at faint gofynnol.

Ni ddylai logo Cymorth i Brynu ymddangos yn llai na 22mm o led ar ddefnydd argraffedig.

## Peidiwch â newid y logo

Mae’n rhaid i’r logo gael ei atgynhyrchu’n gyson ym mhob deunydd cyfathrebu.

a3*

55mm

a4*

40mm

a5

35mm

DL

30mm

**gofynnol


22mm

* Nid dyma’r maint go iawn

** Y maint gofynnol a argymhellir i’w ddefnyddio ar eitemau defnydd yn llai na 99mm o led.

# Parth eithrio

Dyma'r gofod gwag 10mm o led o amgylch y marc brand.




# Cydberthynas â logos eraill

Dylai'r marc brand bob amser gael ei arddangos yr un mor amlwg â logos eraill ond byth yn llai na'r maint gofynnol.

Efallai y bydd angen penodol i ddefnyddio'r logo ar y cyd â logo Cymorth i Brynu y DU wrth hyrwyddo'r cynhyrchion Ecwiti a Rennir a Gwarant Morgais yng Nghymru. Dylid ei gynrychioli yn y ffordd ganlynol.

Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru

Supported by
Welsh Government

# Camddefnydd

Peidiwch â throi’r logo

Peidiwch ag aflunio’r logo

Peidiwch â thynnu’r testun

Peidiwch â newid y lliw

# Defnydd ar y we

Wrth ddefnyddio logo *Cymorth i Brynu – Cymru* ar wefan ni ddylid ei arddangos yn llai na'r maint gofynnol o **33mm**

Cedwir y logos canlynol at ddefnydd gwefan Llywodraeth Cymru yn unig

Am ragor o wybodaeth am ddefnyddio logo brand *Cymorth i Brynu – Cymru*,
cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar **CynlluniauTaiargyferyFarchnad@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41846